

PWYLLGOR CYNLLUNIO

(O BELL TRWY TEAMS)

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 8 Medi 2020

Cadeirydd: Aelod S.Paddison

Is-gadeirydd: Aelod S.Pursey

Cynghorydd: C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey,
R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams,
S.Renkes a/ac M.Protheroe

Aelodau Lleol: Aelod C.Galsworthy (Bryn and Cwmavon),
S.A.Knoyle (Glynneath) a/ac J.D.Morgan
(Glynneath)

Swyddogion yn bresennol: C.Morris, S.Ball, M.Shaw, T.Davies,
R.MacGregor, R.Borthwick, N.Lake,
M.Mohammed, N.Headon, J.Woodman-Ralph,
S.Blewett a/ac T.Davies

1. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

PENDERFYNWYD: Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

2. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygiadau mewn perthynas â'r rhifau cais: P2020/0195 a P2020/0556 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi caniatáu digon o amser i'r Aelodau ei darllen, mewn perthynas â'r eitemau cais ar yr agenda gyhoeddedig. Roedd y Cadeirydd wedi caniatáu iddi gael ei dosbarthu/hystyried ar frys yn y cyfarfod heddiw, am y rheswm a'r amgylchiadau penodol nad oedd yn dymuno gohirio unrhyw geisiadau ac er mwyn sicrhau bod Aelodau yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn dod i unrhyw benderfyniad yn y cyfarfod.

3. **CAIS RHIF. P2020/0195 - HEOL Y GLYN, GLYN-NEDD**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (Datblygiad Preswyl - Amrywio amodau 2 (Deunyddiau Allanol), 11 (Darparu Ynys Ffug) a 17 (Rhaglen Waith Fesul Cam ar gyfer Adeiladu'r Ffordd Fynediad) a diwygiadau i gynllun y safle a manylion peirianyddol cais P2010/0562 (a oedd yn amrywio caniatâd P2003/1330) ar dir i'r de o Heol y Glyn, Glyn-nedd) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â Phrotocol Siarad Cyhoeddus cymeradwy'r cyngor, anerchodd siaradwr cofrestredig y Pwyllgor Cynllunio ac arferodd yr asiant ei hawl i ymateb. Rhoddodd Aelodau Ward Lleol eu sylwadau hefyd.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0195, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar y diwygiad i amod 1 ar y daflen ddiwygio, ond bod amodau 2 a 30 yn cael eu cadw yn unol â geiriad yr adroddiad gwreiddiol (er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth bellach i gadw coed ar ffiniau'r safle).

4. **CAIS RHIF. P2020/0556 - 3 CLOS DEWI SANT, BRYN**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (garej ddwbl ar wahân a chamau mynediad cysylltiedig yn 3 Clos Dewi Sant (Ilain 22), Bryn, SA13 2RZ) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd yr Aelodau fod teitl yr adroddiad gwreiddiol a ddosbarthwyd yn anghywir - 'Ceisiadau Cynllunio a Argymhellir i'w Cymeradwyo'. Dylai'r pennawd fod wedi darllen 'Ceisiadau Cynllunio a Argymhellir i'w gwrthod'.

Rhoddodd Aelodau Ward Lleol eu sylwadau.

PENDERFYNWYD: GWRTHOD Cais Rhif P2020/0556, yn unol ag argymhellion swyddogion.

CADEIRYDD